**<u>Cofnodion Cyfarfod CCG 31.1.20</u>**

<u>Cafwyd cyflwyniad O'r mynydd i'r Môr am 7.00, cyn cyfarfod CCG</u>

19:106: **Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), William Owen, Elwyn Vaughan, Deryck Lewis, Gareth Jones, Aled Griffiths, Iwan Jones, Gwen Lloyd, Dafydd Evans, Paul Hughes, Geraint Wigley, Gwyn Jones

19:107: **Ymddiheuriadau:** Huw Williams, Gareth Owen, Gwenfair Davies, Aeron Pughe,

Nodwyd gyda thristwch farwolaeth Y Cynghorydd Tom Thomas, Nant y Gaseg. Bu Tom yn aelod o'r Cyngor, gan wasanaethu cyn hynny ar Cyngor Plwyf Darowen. Mynegwyd diolch am ei gyfraniad dros gyfnod o fwy na deugain mlynedd ac estynnwyd cydymdeimlad dwys at y teulu. Bydd Siôn yn anfon cerdyn ar ran y Cyngor.

19:108: **Datganiadau o ddiddordeb** - Dim

19:109: **Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Rhagfyr** Cynigiodd William Owen fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Gareth Jones.

19:110: **Materion yn codi o'r cofnodion:**

19:110:1: Cafwyd adroddiad gan Elwyn Vaughan ar nifer o faterion a godwyd am briffyrdd ar ôl taith o gwmpas y safleoedd gyda William Owen a Deryck Lewis a thrafodaeth gyda Chyngor Sir Powys (19:94:2)

- Canghennau wrth bont Cwmlline ar yr A470 **-** Maesafon a Dolybont - Penderfynwyd cysylltu â Traffig Cymru eto.
- Canghennau'n hongian dros y ffordd wrth gyrraedd Abercegir o gyfeiriad Machynlleth. Penderfynwyd cysylltu â pherchennog Ffatri Isaf i ofyn iddo dorri'r sietyn a rhoi enwau contractwyr iddo.
- Dŵr yn cronni wrth 'grating' wedi suddo ger Rhosawel, Cwmlline – Ni all Cyngor Sir Powys gyfiawnhau'r gwariant yn y tymor byr o leiaf.
- Mynedfa Glantwymyn - cais am arwydd ildio a marcio'r ffordd – Nid yw Cyngor Sir Powys yn bwriadu gwneud dim am y broblem gab gynnig y byddai'r ymylon ffyrdd ('Kerbs') presennol yn ddigonol, ac felly nad oedd angen linellau ac arwyddion ildio. Mynegwyd pryder gan y cynghorwyr nad yw ymylon ffyrdd yn fodd effeithiol na chyfreithlon o ddangos blaenoriaeth defnyddwyr ffyrdd. Penderfynwyd cysylltu â Ken Skates.
- Halen - mae rhagor o halen wedi cyrraedd Darowen a Chomins Coch.
- 'Grating' wedi suddo ger Aberffrydlan – ni fydd y Cyngor yn gweithredu rhag ofn achosi i ddŵr redeg i wtra Aberffrydlan
- Goleuadau Top Pentre', Glantwymyn - nodwyd bod un o'r lampau diffygiol wedi diflannu

- Carafan mewn 'layby' ger Mathafarn (19:105:1) - erbyn hyn wedi mae cael ei llosgi ond heb gael ei symud gan nad yw adrannau Cyngor Sir Powys wedi cytuno ar ba adran ddylai fod yn gyfrifol amdani.
- Mynediad i gae ger Glandyfi 'Grey House' sy'n is na'r ffordd ac yn berygl i geir. (19:105:1) Bydd Cyngor Sir Powys yn edrych arno eto.

19:111: **Cynllunio:** Dim

19:112: **Materion Ariannol:**

19:112:1**:** Treth ar gyflog y Clerc am 3 mis – £172.00

19:112:2: Siec arall i Rhys Bleddyn am adfer cofeb Cemaes am £4404.00 gan nad oedd y llall wedi cael ei dderbyn gan y banc.

19:113**: Gohebiaeth:**

19:113:1: Deddf Priffyrdd Cymru – derbyniwyd ymateb y Llywodraeth i'r bont newydd ym Machynlleth. Y bwriad yw bwrw ymlaen gyda'r datblygiad er gwaethaf yr argymhellion a godwyd gan CCG. Nodwyd mai'r contractwr fydd yn gwneud y gwaith a gynhaliodd yr ymgynghoriad a gofynnwyd a oedd hynny'n arferol ac yn dderbyniol. Mynegwyd pryderon am a fyddai'r goleuadau stryd yn ddigonol ac a fyddai'r pwmp o dan y bont yn parhau i fod yn effeithiol gydag amser. Penderfynwyd cysylltu â Traffig Cymru i weld pwy oedd yn gyfrifol am y pwmp.

19:113:2: Cafwyd cynnig derbyn Cofrestr Etholwyr gan y Swyddfa Cofrestri Etholwyr. Cynigiwyd y dylid cael copi o'r gofrestr gan Paul Hughes. Fe'i heliwyd gan Gareth Jones.

19:113:3: Cynllun Datblygu Lleol Powys. Bydd Elwyn Vaughan yn edrych ar y cynllun ar ran y Cyngor.

19:113:4: Afancod. Tynnwyd sylw at gyfarfodydd a gynhelir yn lleol i roi gwybodaeth am ollwng afancod.

19:114: **Adroddiadau'r Cynghorwyr**

19:114:1: **Gareth Jones a Gwenfair Davies – Fforwm Cleifion**

Adroddodd Dr Shaw fod system newydd i gael mynediad i wasanaeth ym meddygfa Iechyd Bro Ddyfi.

Mae manylion ar eu gwefan. Deellir fod angen bwcio o leiaf fis ymlaen llaw i gael apwyntiad meddyg.

Os yw'n fater sydd angen sylw ynghynt, mae angen ffonio'r feddygfa am wyth y bore. Cafwyd sicrwydd fod digon o dderbynyddion ar gael i ateb y galwadau hyn, ond maent yn hysbysebu am dderbynyddion ychwanegol hefyd, yn ogystal â meddyg teulu cyflogedig. Deellir hefyd fod amser penodol i ffonio i dderbyn canlyniadau profion.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Peter Skitt a Dr Said Awad ynglŷn â gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais. Roedd sicrwydd y byddai'r adran frys yn parhau i fod yn uned trawma gwledig. Bydd y sganiwr MRI yn weithredol ar y 31 o Ionawr 2020 ac yn un o'r goreuon i'w gymharu ag 'ysbytai ardal cyffredinol' eraill. Roedd nifer o apwyntiadau i swyddi arbenigol wedi'u llenwi ac mae ymgais i ymestyn a chynyddu gwasanaethau i ysbytai cymunedol yng ngogledd Powys a de Meirionydd. Mae cynllun ar droed i wella'r ddarpariaeth i gleifion sy'n dioddef salwch meddwl drwy gael uned argyfwng. Ni fydd y lleoliad yn yr Ysbyty ond bydd yn agos i Aberystwyth. Mae arbenigwyr gofal dementia yn rhoi cefnogaeth i'r holl wardiau ym Mronglais gan fod llawer o bobl sydd yn derbyn triniaeth feddygol yn byw gyda chyflwr dementia. Er y newyddion cadarnhaol, clywyd y byddai lleihad o 8 – 10 gwely dros dro ym Mronglais er mwyn ceisio mynd i'r afael a gorwariant.

Adroddodd Jason Crowl o Fwrdd Iechyd Addysgol Powys fod Ysbyty Bro Ddyfi yn rhedeg yn esmwyth ac nid yw'n ddibynnol ar nyrsys asiant fel rhai ysbytai cymunedol eraill ym Mhowys. Dywedodd hefyd fod gobaith y bydd y datblygiad newydd ar safle Ysbyty'r Frest yn mynd rhagddo ac ychwanegodd Peter Skitt fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gyrru llythyr i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cais. Cafwyd diweddariad hefyd ynglŷn â phrosiect lles gogledd Powys sydd yn cael ei ganoli yn y Drenewydd a derbyniwyd sicrwydd na fydda'r datblygiad yma yn amharu ar ddatblygiad newydd Machynlleth.

19:114:2: **Paul Hughes - Neuadd Glantwymyn**

Rhoddwyd hen gadeiriau Canolfan Cymuned Glantwymyn i Warchodfa Cors Dyfi.

19:114:3: **Elwyn Vaughan – y Cyngor Sir**

Cadarnhawyd y bydd y Ganolfan Hamdden yn dod yn rhan o Ysgol Bro Hyddgen (Uwchradd) – Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei dendro ymhen 6 wythnos. Caiff y prosiect ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n bosib y bydd prosiect o fewn y maes gofal yn digwydd ym Machynlleth sef canolfan newydd i gynnwys Powys, gogledd Ceredigion a Meirionydd

19:115**: Unrhyw Faterion Eraill**

19:115:1: Mae Network Rail wedi trwsio'r rheiling yng Nghomins Coch.

19:115:2: Diolchwyd i'r Blewyn Glas am roi le yn gyson i adroddiadau CCG. Gwerthfawrogir hyn yn fawr gan y gymuned leol.

19:115:3: Tynnwyd sylw unwaith eto at yr angen i ysgubo'r ffyrdd am nad yw hyn wedi cael ei wneud er gwaethaf y gofyn parhaus. Penderfynwyd cysylltu eto â Chyngor Sir Powys gan gopïo Elwyn Vaughan i mewn i'r neges.

19:115:4: Mae lamp polyn rhif 2178 Glantwymyn yn ddiffygiol.

19:115:5; Mae'r llwybr troed rhwng Goleufryn a Hafod, Glantwymyn mewn cyflwr gael gyda'r tar yn codi.

19:115:6: Cafwyd cais gan Gymdeithas Pentref Cemaes yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor wrth i'r pentref baratoi cais ar gyfer cystadleuaeth Cymru yn ei Blodau. Llongyfarchwyd pobl yr ardal gan y Cynghorwyr gan ddymuno'n dda iddynt yn y gystadleuaeth. Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried iechyd a diogelwch bob adeg.

19:115:6: Cafwyd cais i osod wyneb caled ar y gwair yn gyferbyn â'r byngalos ger Parc Sisial Afon gan fod y tir yn fwdlyd o ganlyniad i geir yn cael eu parcio yno. Penderfynwyd cysylltu â'r Gofrestra Tir i sefydlu perchnogaeth y tir yn ogystal â'r Adran Tai.

19:115:7: Bocs ffôn Cemaes – cafwyd ymholiad gan Gymdeithas Tai Cemaes o ran perchnogaeth y bocs a'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono. Cadarnhawyd mai CCG oedd piau fo. Croesewir syniadau gan y gymuned ar gyfer ei ddefnyddio.

19:115:8: Cyfyngder cyflymdra yng Nghemaes a Chwmlline. Mynegwyd pryder nad yw'r cyfyngder cyflymdra'n ddigonol. Penderfynwyd cysylltu â Ken Skates i ofyn am arwyddion cyfyngder cyflymdra 30mya.

19:115:9: Mynegwyd diolch i staff Ward Twymyn Machynlleth a'r Nyrsys Ardal am eu gofal heb ei ail.

19:115:10: Mynegwyd pryder bod ymarferwyr nyrsio yn cael eu defnyddio yn lle meddygon. Yn ogystal â'r diffyg arbenigedd, mae cleifion yn gorfod aros i'r ymarferydd nyrsio gael llofnod gan feddyg os bydd angen presgripsiwn.

19:115:11: Codwyd a ddylai pobl yn y gymuned adrodd yn uniongyrchol i gynrychiolwyr Fforwm Cleifion.

Caewyd y cyfarfod am 7.40

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 ar y 27ain o Chwefror**